

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWDYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH
17.07.19

YMDDIHEURIADAU

Dim.

PRESENNOL

Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Robert G. Owen, Dylan Hughes, Mair Thomas, David J. Roberts, Caerwyn Roberts a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 5ed 2019 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI

Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £6,590.88 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £5,013.07 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y gost o £4,000 fel cyfraniad i gadw y toiledau cyhoeddus yn agored heb gael ei wario.

Model Broctocol Datrysiadau Lleol

Adroddodd y Clerc bod yr Aelodau wedi penderfynnu yn y cyfarfod diwethaf i roi y mater yma ar yr agenda er mwyn gallu ei drafod ymhellach cyn penderfynnu ei fabwysiadu neu beidio. Cytunwyd i fabwysiadu y model hwn.

Rheolau Ariannol a Rheolau Sefydlog y Cyngor

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon copi o rhai newydd o'r uchod i bob Aelod gyda'r cofnodion er mwyn iddynt gael amser i'w darllen. Cytunwyd i fabwysiadu y rheolau sefydlog ag rheolau ariannol newydd hyn.

Prisiau Torri Gwair y Llwybrau Cyhoeddus ar Fynwent Gyhoeddus

Adroddodd y Clerc ei bod wedi gofyn i Mr. Eifion Roberts a fyddai diddordeb ganddo ef yn y gwaith o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus eleni ag ei fod wedi derbyn am bris o £10.00 yr awr. Cytunodd pawb i hyn.

Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg

Adroddodd y Clerc bod cyfarfod wedi cael ei gynnal ddoe y 16eg gyda Mr. Dylan Jones o Gyngor Gwynedd ar y safle uchod fel ei fod yn gallu gweld beth yw yr angen am eu cael gyda'r Cyng. Mair Thomas, y Cyng. Russell Sharp a'r Clerc yn bresennol. Datganodd Mr. Dylan Jones bod yr Adran wedi derbyn sawl gwrthwynebiad i'r bwriad o osod y llinellau melyn hyn ag hefyd y byddai yn rhaid cael tystiolaeth gadarn o'i hangen os fyddai y Cyngor Cymuned yn penderfynnu cario ymlaen gyda'r cynllun. Adroddwyd gan yr Aelodau mae ar sail diogelwch yn bennaf oedd y Cyngor Cymuned eisiau y llinellau hyn a bod rhai bobl oedd yn byw gerllaw o blaid y cynllun yn gryf. Cytunwyd y byddai cynllun yn cael ei wneud o osod llinellau melyn o'r man lle maen't yn stopio yn nawr lawr at y lamp stryd gyntaf ac wedyn o'r giat oedd yn mynd i'r cae gerllaw i lawr gyferbyn a Glangors a byddai y cynllun hwn hwyrach yn plesio pawb. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn copi o fab gan Mr. Dylan Jones ar ol y cyfarfod ddoe yn dangos y cynllun newydd arfaethedig ag ar ol trafodaeth cytunwyd pawb bod hwn yn well ag i ofyn i'r llinellau melyn gael eu gosod fel a ddangosir yn y cynllun hwn.

Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy

Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r uchod a gafodd ei gynnal ar yr 20ed o Fehefin ac adroddodd fel a ganlyn – 'roedd cofnodion o'r cyfarfod wedi cael eu anfon allan ond nid oedd wedi cael amser i'w printio ag hefyd nid oedd wedi gallu agor y ddogfen oedd yn dangos y sefyllfa ariannol ag ei bod yn gobeithio gallu gwneud hyn erbyn cyfarfod nesa y Cyngor. Adroddodd bod ffenestri newydd wedi cael eu gosod rhwng y caffi ar pwll, bod angen rhywun newydd i wneud y gwaith gyda'r cyfrifon a bod trydanwr wedi bod allan i weld y goleuadau stryd ag eu bod yn cael eu monitro am bythefnos. Hefyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal ynglyn ar paneli solar.

410.....Cadeirydd



CEISIADAU CYNLLUNIO

Gosod un ffenestr to ar y drychiad blaen - Fron Oleu, Fron Hill, Llanfair (NP5/66/162A)

Cefnogi y cais hwn.

Gosod ffenest ddormer ar yr edrychiad cefn, dwy ffenest do ar yr edrychiad blaen ac un ar edrychiad ochr – Bryn y Wern, Fronhill, Llanfair (NP5/66/262A)

Cefnogi y cais hwn.

Codi estyniad unllawr ar yr ochr – Penrallt, Llanfair (NP5/66/79A) – CYNLLUN DIWYGIEDIG

Cefnogi y cais hwn.

Datganodd y Cyng. David John Roberts ddiddordeb yn y cais cynllunio uchod a ni chymerodd ran yn y trafodaethau.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £7,786.54 yn y cyfrif rhedegol, a £5,510.03 yn y cyfrif cadw.

Taliadau ers y cyfarfod diwethaf

Cyllid a Thollad - £94.80 - treth cyflog y Clerc
Mr. Arwel Thomas - £540.00 - torri gwair y fynwent x 2
Cyngor Gwynedd - £4,000.00 - cyfraniad i gadw toiledau Llandanwg yn agored.
Neuadd Goffa Llanfair - £64.00 - llogi ystafell bwyllgor

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Mr. M. Downey - £40.00 - rhent cwt yr hers (Gorffennaf)
Pritchard a Griffiths - £760.00 - claddu y diweddar Mr. Gareth Mitchelmore
Cyngor Gwynedd - £1,006.80 - ad-daliad incwm maes parcio Llandanwg

GOHEBIAETH

Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd y cyfarfod blynyddol rhwng y Parc Cenedlaethol ar Cynghorau yn cael eu cynnal ar y 30ain o Fedi yn Plas y Brenin, Capel Curig, 1af o Hydref yn Plas Tan y Bwlch ag ar y 3ydd o Hydref yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi a bod bob cyfarfod yn cychwyn am 6.30 o'r gloch. Datganwyd bydd mwy o fanylion yn cael eu anfon yn nes at y dyddiad.

UNRHYW FATER ARALL

Eisiau tynnu sylw yr Adran Prifffyrdd bod maes parcio yn y pentref yn edrych yn fler iawn gyda chwyn wedi gor-dyfu o'i amgylch ag hefyd bod y garreg a dal i lawr yn y maes parcio er bod y Cyngor wedi anfon at yr Adran Brifffyrdd am hyn nol yn mis Medi 2017.

Eisiau i'r Adran Prifffyrdd wybod bod yna or-dyfiant ger Castellfryn unwaith yn rhagor.

MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ei fod wedi cysylltu gyda'r Adran Prifffyrdd yn Nolgellau i ofyn pryd oedd yn fwriad ganddynt dorri y gwair ar ochor y ffordd o Frondeg i lawr am Pensarn am ei fod yn edrych yn fler iawn ag ei bod wedi cael ateb yn datgan fod yn fwriad ganddynt gyda Llanfair o fewn y cyfyngiad 40 m.y.a., unwaith fydd y contractwr wedi ei dorri yw rhoi ar restr waith Mewnol y Cyngor fel pentrefi arall. Wrth wneud hyn fydd derbyn tri thoriad y flwyddyn fel pentrefi cyfagos.

Dyddiad Cyfarfod Nesa

Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Medi 11eg 2019 am 7.30 o'r gloch

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 11/9/19 411